Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Deddf Gwarcheidiaeth (Pobl sydd ar goll) 2017

## Gweithredu'r Ddeddf

Cyhoeddir yr ymateb hwn ar 29 Ebrill 2019

## Crynodeb gweithredol

Y ddogfen hon yw Ymateb y Llywodraeth i'r papur ymgynghori *Deddf Gwarcheidiaeth (Pobl sydd ar goll) 2017: Gweithredu'r Ddeddf.* Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 12 Chwefror 2019. Mae'r ddogfen ganlynol yn amlinellu cefndir yr ymgynghoriad; crynodeb o'r ymatebion; ymateb manwl i'r cwestiynau penodol a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad a'r camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

Cafwyd 7 ymateb ffurfiol i'r papur ymgynghori, ond bu i nifer fwy o sefydliadau ac unigolion gyflwyno sylwadau ac awgrymiadau mewn cyfres o gyfarfodydd gyda rhanddeiliaid a phartïon sydd â diddordeb a drefnwyd gan y Weinyddiaeth. Gwnaed sawl pwynt ynghylch materion gweithredu – p'un a oeddynt yn ymwneud â rheolau'r llys, rheoleiddio gwarcheidwaid neu (yn benodol) y Cod Ymarfer. Mae'r ddogfen olaf wedi'i dylunio i ddarparu cyngor ac arweiniad i warcheidwaid ar holl agweddau'r rôl, o'r broses ymgeisio i'r cyfrifoldebau mae'r rôl yn eu cynnwys.

Rydym yn ddiolchgar i bawb a rannodd eu harbenigedd, eu profiad a'u mewnwelediadau. Cafwyd ymatebion gan deuluoedd pobl sydd ar goll, y prif elusennau sy'n eu cefnogi, cyfreithwyr, sefydliadau ariannol a sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus a fydd yn gweithio gyda gwarcheidwaid i reoli materion pobl sydd ar goll.

Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer y Ddeddf bellach wedi cael ei ddiwygio yng ngoleuni'r broses ymgynghori, ac fe'i gyhoeddir ym mis Gorffennaf 2019. Ni chafwyd unrhyw sylwadau ar yr Asesiad Effaith gan y rhai hynny a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Felly, nid yw'r Asesiad Effaith ar gyfer y cam ymgynghori wedi cael ei ddiwygio.

Wrth fwrw ymlaen gyda'r broses weithredu, bydd y Llywodraeth yn parhau i weithio'n agos ag amrywiaeth o randdeiliaid i roi'r holl elfennau angenrheidiol mewn lle yn barod ar gyfer ei weithredu ym mis Gorffennaf 2019.